Torri coed mawr i lawr gan ddefnyddio llif gadwyn

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â thorri coed mawr i lawr gan ddefnyddio llif gadwyn. Caiff coeden fawr ei diffinio fel un dros 380mm (15 modfedd) ar ei huchder torri i lawr.

Bydd y dechneg torri i lawr yn briodol i faint y goeden, ei phwysau, ei chyflwr a'r rhywogaethau yn ogystal ag ystyried y dirwedd a'r tywydd. Bydd y dulliau torri i lawr yn cynnwys defnyddio tyllau turio, tyllau dal ac onglau torri i lawr i gynorthwyo'r broses o dorri i lawr.

Mae hyn yn cynnwys coed conifferaidd a dail llydan, coed sydd yn sefyll, coed sydd wedi eu pwyso tuag at a'r rheiny sydd wedi eu pwyso yn erbyn cyfeiriad torri i lawr a nodwyd.

Wrth weithio gyda pheiriannau bydd angen eich bod wedi cael hyfforddiant priodol, ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen, yn unol â deddfwriaeth.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith arfaethedig
2. dewis a gweithredu'r dulliau gwaith priodol yn unol â'r peryglon a aseswyd
3. dewis a defnyddio'r offer amddiffynnol personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith
4. cynnal diogelwch a diogeledd yr offer ar y safle
5. cynllunio sut byddwch yn gwneud y gweithgaredd a thrafod unrhyw bryderon gyda'r person priodol ynghylch y ffordd orau o gwblhau'r gwaith
6. cynnal cyfathrebu a gwaith tîm effeithiol wrth dorri coed mawr i lawr
7. paratoi'r safle trwy symud rhwystrau yn y cyfeiriad torri i lawr a sefydlu llwybr(au) dianc, fel y bo'n briodol
8. paratoi'r safle ar gyfer torri coed i lawr gan ddefnyddio llif gadwyn
9. cadarnhau bod yr holl offer wedi cael ei wirio a'i fod yn addas at y diben
10. cynnal gwaith cynnal a chadw, gwiriadau cyn cychwyn a gosod y llif gadwyn ar gyfer ei ddefnyddio fel mater o drefn
11. paratoi'r goeden fawr ar gyfer ei thorri i lawr, yn briodol ar gyfer cyflwr y goeden a'r fanyleb ar gyfer y safle
12. paratoi'r safle i hwyluso tynnu'r goeden i lawr a sicrhau bod yr ardal waith uniongyrchol wrth waelod y goeden yn glir
13. dewis dulliau torri i lawr cydnabyddedig gan ddefnyddio llif gadwyn, sy'n berthnasol i'r fanyleb, maint a chyflwr y goeden, gan ystyried y cyfeiriad y mae'r coed wedi eu pwyso a'r cyfeiriad y bwriedir iddynt gwympo
14. torri coed mawr sy'n sefyll i lawr (h.y. heb eu pwyso'n drwm) mewn cyfeiriad wedi ei bennu ymlaen llaw, gan ddefnyddio dulliau torri i lawr a chymhorthion torri i lawr a gydnabyddir, fel sy'n briodol i ffurf a chyflwr y goeden a'r dechneg o dorri i lawr
15. torri coed mawr i lawr sydd wedi eu pwyso tuag at gyfeiriad torri i lawr penodol gan ddefnyddio dulliau torri i lawr cydnabyddedig (a chymhorthion torri i lawr, os oes angen) sy'n briodol i ffurf, cyflwr a thechneg torri i lawr dethol y goeden
16. sicrhau bod safle a chyflwr y goeden sydd wedi ei thorri i lawr yn ddiogel ac yn addas ar gyfer gweithrediadau dilynol
17. dilyn yr arfer da amgylcheddol a nodir gan eich sefydliad a'r

diwydiant a lleihau niwed amgylcheddol
18. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill yr holl amser, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
19. cadw cofnodion cywir a diweddar, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a'ch sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut i adnabod peryglon a chydymffurfio a gweithdrefnau rheoli asesiadau risg wrth dorri coed mawr i lawr gan ddefnyddio llif gadwyn
2. cynlluniau a gweithdrefnau wrth gefn ar gyfer y safle
3. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol (PPE)
4. pwysigrwydd lleihau niwed amgylcheddol ac atal digwyddiadau o lygredd
5. pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol gydag aelodau o'r tîm wrth dorri coed mawr i lawr gan ddefnyddio llif gadwyn
6. y gofynion cyfreithiol ar gyfer gwirio offer
7. sut i adnabod pa goed mawr sydd angen eu torri i lawr yn ôl rhywogaethau, lleoliad, cyflwr a nodau
8. y gofynion a'r cyfyngiadau cyfreithiol perthnasol ar gyfer torri coed mawr i lawr mewn amgylchiadau gwahanol
9. goblygiadau tirwedd, cyflwr y ddaear, y tymor, y tywydd a chyflwr y coed i dorri coed mawr i lawr
10. sut i asesu uchder y goeden fawr mewn perthynas â'i hamgylchedd
11. y dulliau torri i lawr cydnabyddedig, yn cynnwys defnyddio tyllau tyrio a chymhorthion torri i lawr
12. y dulliau torri i lawr amgen ar gyfer coed sydd yn sefyll/heb eu pwyso'n drwm, yn cynnwys ddefnyddio bariau canllaw sydd yn fwy na diamedr y goeden ar ei huchder torri i lawr
13. sut i adnabod arwyddion clefydau a phydredd mewn coed ac addasu'r dulliau torri i lawr yn unol â hynny
14. manteision sefydlu neu ddefnyddio mainc torri i lawr naturiol, mat malurion neu gymorth tebyg cyn torri i lawr
15. sut a phryd i ddefnyddio offer ychwanegol i gynorthwyo gyda'r gwaith o dorri coed mawr i lawr a'r rhagofalon ychwanegol sydd eu hangen
16. sut i dorri polion mwy na hyd diamedr y bar canllaw i lawr a'r rhagofalon ychwanegol sydd eu hangen
17. y rhagofalon ychwanegol i'w defnyddio wrth dorri coed mawr i lawr gerllaw llwybrau, ffyrdd neu ardaloedd â mynediad cyhoeddus
18. y canllawiau cyfredol ar gliriadau diogelwch o ddargludyddion

trydan uwchben a beth i'w wneud os bydd cyswllt â llinellau pŵer
19. sut i wybod pan fydd coeden yn anodd i'w thorri i lawr ac y bydd angen technegau arbenigol ar gyfer torri i lawr, a allai fod oherwydd ei chyflwr, agwedd neu safle, am ei bod yn goeden fawr iawn neu'n goeden o werth masnachol uchel
20. pam y mae'n bwysig cadw llifau cadwyn i safon uchel
21. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol

Cwmpas/Ystod

Dulliau torri i lawr ar gyfer:

- coed sy'n sefyll/wedi eu pwyso
- coed wedi eu pwyso yn ôl
- coed wedi eu pwyso ymlaen
- polion
- coed sydd yn anodd eu torri i lawr (e.e. oherwydd eu gwerth masnachol uchel, eu cyflwr, eu hagwedd neu eu safle)
- defnydd o fariau canllaw sydd yn fwy na diamedr y goeden

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Offer ychwanegol:

- gefeiliau codi
- bachau gogwydd
- bachau troi
- strapiau troi
- polion tynnu i lawr
- winshis llaw bach
- offer priodol arall
- gellir defnyddio winshis ac offer atebol addas arall fel cebl, strapiau, cadwynau, hualau a dyfeisiadau eraill hefyd ar gyfer torri i lawr gyda chymorth

Geirfa

Effeithiau posibl ar yr amgylchedd – fel nyth gwiwerod coch, deyerydd moch daear, cytrefi ystlumod

Paratoi'r safle – gallai hyn olygu gosod mainc, mat malurion neu debyg

Paratoi coed ar gyfer eu torri i lawr – a allai gynnwys malurio canghennau is, tynnu llystyfiant sy'n dringo, bwtresi a rhwystrau eraill

Polion – coed gyda'u canghennau wedi eu tynnu

Safleoedd coed – sefyll yn syth, pwyso yn erbyn a phwyso i'r cyfeiriad y bwriedir eu torri i lawr

Torri coed mawr i lawr gan ddefnyddio llif gadwyn

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2017
Indicative Review Date	Chwefror 2021
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANTw20
Galwedigaethau perthnasol	Coedyddiaeth a choedwigaeth; Gweithredwyr llifau cadwyn a pheiriannau coedwig; Ceidwad Parc; Garddwr; Gofalwr y Grîn; Tirluniwr; Garddwriaeth a choedwigaeth
Cyfres/Set	Gwaith coed
Geiriau Allweddol	torri i lawr; coeden; llif gadwyn